Nid oes unrhyw un yn gadael ei gartref oni bai bod y cartref hwnnw yn debyg i geg siarc

Warsan Shire

Gweler yr erthygl y tu mewn

Rhifyn 10
PAPUR MEHEFIN 2025

GWEDDI GAN EIN GWEINIDOG

Dros Blant Gaza

Dad trugarog,
gweddïwn dros holl blant y byd, ond yn enwedig dros blant Gaza.

Gweddïwn am ryddid i blant Gaza
gael rhedeg a neidio, chwerthin a chwarae heb ofn y fwled a'r dryll.

Gweddïwn dros blant ym mhob man sydd â'r hawl i ddiogelwch a chysgod oddi mewn i'w cartrefi eu hunain, ac nid i golli eu cartrefi neu gael eu lladd oddi mewn iddynt.

Gweddiwn dros blant sy'n derbyn triniaeth mewn ysbytai yn dilyn niwed gan fomiau, iddynt dderbyn y driniaeth y maent yn eu haeddu, ac nid i weld eu hysbytai yn cael eu bomio.

Gweddiwn dros hawl pob plentyn i gael teulu gweithgar sy'n mynd ynglŷn â'u dyletswyddau heb ofni troedio y tu allan i ddrws y tŷ oherwydd terfysg a thrais.

Gweddïwn dros hawl pob plentyn i dyfu i fyny heb y trawma a achoswyd gan ryfel yn ystod blynyddoedd eu plentyndod.

Gweddiwn dros pob plentyn a fydd yn tyfu i fyny heb riant, neu fodryb neu ewythr, brawd na chwaer.

Gweddïwn dros blant Gaza.

Gweddïwn am gyfiawnder.

Gweddïwn am heddwch

Yn enw Iesu Grist

Amen

DARLLENIADUR

Mis Mehefin	Darlleniad
Wythnos 1	Salm 139:1-6
Wythnos 2	Salm 138
Wythnos 3	Salm 20
Wythnos 4	Salm 9:9-20
Wythnos 5	Salm 130

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

Hywel a Janet Evans

Roger ac Alison Evans

Joan Thomas

Dilwyn Davies

Dave Thomas

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

YN DYMUNO NODDI PAPUR YR OFALAETH?
Cyswllt
PHILIP JONES
Trysorydd
☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk

Gellir trosglwyddo cyfraniad i'r cyfrif isod gan nodi'ch enw a "papur" fel cyfeirnod:

'Eglwys Annibynnol Y Priordy' Banc Lloyds
30-91-68
Acc no: 00229403

neu osod cyfraniad yr yr amlen sydd gyda Phapur yr Ofalaeth (rhifyn papur) y mis hwn. Gellir dychwelyd yr amlen i'n Gweindog neu Ysgrifennydd yr Eglwys neu ei rhoi yn y blwch casglu.

PANED A SGWRS MIS MAI

GWASANAETH CYMORTH CRISTNOGOL
18 Mai 2025

I gydfynd ag Wythnos Cymorth Cristnogol ym mis Mai, fel y gwneir o flwyddyn i flwyddyn, cynhaliwyd oedfa arbennig yn y Priordy gyda'n Gweinidog ac aelodau'n cymryd rhan i ddathlu'r digwyddiad. Roedd yr achlysur yn un arbennig eleni gan fod Cymorth Cristnogol yn dathlu 80 mlynedd o ymladd tlodi ac anghyfiawnderau yn ein byd.

Yng nghanol tlodi mawr mae bywyd yn gallu ymddangos yn anodd i lawer gyda phopeth yn dywyll a di-obaith ond diolch am ymdrechion unigolion, gyda chymorth Cymorth Cristnogol, sy'n benderfynol i drawsnewid sefyllfaoedd hynod o heriol yn ein byd. Person felly yw Aurelia sy'n byw yn rhanbarth Alta Verapaz yn Guatemala ble mae 90% o bobl yn byw mewn tlodi a'r brodorion yn dioddef llawer, yn enwedig wrth i'r argyfwng hinsawdd ddwysáu. Clywsom yn ystod y gwasanaeth fel mae Aurelia gyda chymorth Congroon, partner Cymorth Cristnogol yn Guatemala, yn gwrthod rhoi'r ffidil yn y to ac yn gweithio'n ymarferol a llawn gobaith i wella cyflwr truenus y trigolion.

Yn ei neges wedyn, hoeliodd ein Gweinidog ein sylw ar Tabitha (Dorcas) y mae hanes ei hatgyfodiad yn Joppa yn Llyfr yr Actau. A chlywsom fel y gwnaeth ffydd fyw Tabitha ei hysgogi i gyflawni gweithredoedd da ac elusennol.

Yn ein gweddi, diolchwyd am esiampl Tabitha ac Aurelia a phawb arall y mae eu gobaith yn gorlifo i weithredu er lles dynol ryw dan arweiniad Duw.

Am ba hyd y pery tlodi a chaledi yn ein byd, meddech chi? Anodd ateb cwestiwn mor astrus ond diolch am waith arbennig Cymorth Cristnogol ac elusennau eraill sy'n rhoi ac yn gweithredu a hynny'n llawn gobaith i leddfu gofidau mewn sawl rhan o'n byd y dyddiau hyn.

CYMERWYD rhan yn y gwasanaeth gan Jayne Woods, Nia Lewis a Tim Hayes. Roedd Heather Williams wrth yr organ. Y casglyddion oedd Osian a Trystan a'r cyhoeddwr, Luned Voyle Thomas. Mae'n diolch yn fawr i'n Gweinidog am drefnu'r cyfan, gan gynnwys y testun fidio. Diolch hefyd i bawb sydd wedi cyfrannu at Gymorth Cristnogol drwy'r amlenni a ddosbarthwyd gyda Phapur ein Gofalaeth.

Oedfa Cymorth Cristnogol yn Y Tabernacl

Cynhaliwyd Oedfa Cymorth Cristnogol yng Nghapel y Tabernacl fore Sul 11 Mai 2025 ar ddechrau'r Wythnos, gydag Ernest Jones, Rhian Jones, a Joan Thomas o Heol Awst, ac Amanda Davies, Anona Defis a Tom Defis o Elim, ynghyd ag aelodau o gapeli eraill y dref, yn cymryd rhan, a'r Parchedig Siân Elin Thomas, Crymych, yn pregethu ar y thema Gorlawn â Gobaith.

HWB SGILIAU

MAE llun y ddau weithgar yma – Huw a Nia yn ymddangos ar dudalenau gwefannau cymdeithasol yn aml!

Dyma Nia sy'n aelod yn Heol Awst a Huw sy'n aelod yng Nghana. Mae'r ddau'n dalentog iawn ac yn gweithio'n galed yn yr Hwb Sgiliau, Cyngor Sir Gâr.

Mae'r Hwb Sgiliau yn cynnig cyfleoedd i unigolion sy'n wynebu rhwystrau wrth geisio cael mynediad at gyfleoedd hyfforddiant a gwaith. Mae'n cefnogi pobl i oresgyn y rhwystrau hyn ac i ddatblygu sgiliau gydag amrywiaeth o weithgareddau gyda chymorth.

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Crochenwaith
- Gwaith coed
- Sgiliau Bywyd Dyddiol
- Gwaith Cyfathrebu Cyflawn
- Cynnig cyfleoedd hyfforddi i bobl sydd eisiau dysgu sgiliau newydd a chael profiad gwaith.

Mae'r tîm yn yr Hwb Sgiliau wedi bod yn gweithio'n galed ar y casgliad o ffigyrau Ladi Gymreig Fach a Gwraig Gocos sydd bellach ar gael yn yr Hwb Sgiliau

yn Cross Hands. Efallai eich bod wedi eu gweld ar werth hefyd yn ein siopau lleol.

Nid oedd pob Menyw Gymreig yn gwisgo'r lliwiau traddodiadol sef Coch, Du, a Gwyn. Mae ein criw gwych yn yr Hwb Sgiliau wedi bod yn brysur yn arbrofi gyda gwahanol liwiau a phatrymau, gan eu gwneud yn unigryw i'r Hwb Sgiliau.

Ac mae llawer mwy i'w ddysgu am yr Hwb Sgiliau! Ewch mewn i'w gwefan: Cyngor Sir Gâr/Hwb Sgiliau neu dilynwch eu tudalen Facebook https://www.facebook.com/profile.php?id=61570505800095

DA IAWN Nia a Huw. Rydyn ni'n falch iawn ohonoch!

Beti Wyn

Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org

PLANT ELIM YN Y GYMANFA BWNC

Y GYMANFA BWNC

Cynhaliwyd Cymanfa Bwnc Bwlchnewydd, Elim a Chapel Cendy fore Sul 18 Mai ym Mwlchnewydd. Yr holwraig oedd Karen Owen. Cyflwynodd plant Ysgol Sul Elim eu gwaith yn arbennig a chawsant eu holi am hanes Mari Jones o'r Bala gan ateb bob cwestiwn yn gywir. Roeddent yn haeddu pop a chreision yn y festri ar ôl eu gwaith da. Bu'r côr yn canu dau emyn cyn i Karen Owen holi'r oedolion. Daeth y bennod eleni o'r Epistol at y Galatiaid. Bu trafod difyr iawn a bu'r oedfa gyfan yn un fendithiol tu hwnt. Diolch i bawb a fynychodd ac am y gwaith paratoi ymlaen llaw a oedd yng ngofal John Davies, Elim.

CYMANFA GANU UNDEBOL CAERFYRDDIN A'R CYLCH
NOS SUL, 28 MEDI 2025 am 5

Capel Heol Awst Caerfyrddin SA31 3AP

Arweinydd

Pat Jones, Caerfyrddin

Rihyrsals ar Nos Sul am 5
Y Priordy – 13 Gorffennaf 2025, Y Tabernacl – 7 Medi 2025
Heol Awst – 14 Medi 2025 (Prif Rihyrsal yng ngofal yr Arweinydd)

Rhaglenni'r Gymanfa – £3 (Hen Nodiant neu Sol-ffa)
Ar gael gan Huw Michael (P), Olga Williams (HA) a Elisabeth Evans (E)

Mwynwen Jones

OEDFA'R MAER YN Y PRIORDY

BRAINT o'r mwyaf oedd bod yn bresennol yn oedfa arbennig Maer newydd tref Caerfyrddin sef aelod ffyddlon o'r capel, y Cynghorydd Heledd ap Gwynfor. Mae'n briod â Rhys ac mae eu mab, Meredydd yn aelod cyson o'r Ysgol Sul.

Braf oedd gweld cynulleidfa niferus a llawr y capel yn gyfforddus lawn.

Ein Gweinidog oedd yng ngofal y gwasanaeth ac fe groesawodd pawb yn gynnes gan ddymuno'n dda i Heledd am y flwyddyn i ddod gan ddiolch yn fawr hefyd i Emlyn Schiavone, un o'n diaconiaid, am ei waith yntau fel y Maer dros y flwyddyn a fu. Dymunodd ein Gweinidog yn dda hefyd i Luned Voyle, diacon arall o'r capel sy'n dechrau ar ei chyfnod fel Siryf y Dref.

Cydganwyd 'Emyn:627' Fe chwythodd yr awel ar ddechrau'r oedfa.

Ar gyfer cynulleidfa niferus roedd angen pump o blant yr ysgol Sul i helpu gyda'r casglu sef Cadi, Greta, Miriam, Aneirin a Brynmor. Yna, fe ganwyd 'Emyn: 416' Y mae in Waredwr.

Cariad oedd thema'r gwasanaeth ac amlygwyd hy nny yn narlleniad Maer y Dref pan ddarllenwyd adnodau allan o lythyr cyntaf Ioan, Pennod 4. Neges y darlleniad oedd os ydy Duw wedi dangos mawredd ei gariad Ef tuag atom ni drwy ddanfon Iesu Grist i'r byd, y lleiaf y disgwylir i ni ei wneud yw caru ein cyd-ddyn.

Yna, aeth tri o blant yr ysgol Sul - Ifan, Cadi a Meredydd i'r pwlpud i wneud cyflwyniad. Cyfeiriodd Ifan a Cadi at yr holl gyfoeth o hanes a thraddodiadau arbennig sy'n perthyn i'r dref arbennig hon ond aeth ymlaen wedyn i nodi nad yw Caerfyrddin yn berffaith a bod llawer o broblemau yn wynebu'r dref. Yna, gwnaeth Meredydd ymhelaethu ar rai o'r problemau hynny fel diweithdra, digartrefedd

a phrysurdeb y banciau bwyd. Aeth ymlaen i nodi sut mae'r capel yn ceisio helpu apeliadau arbennig fel y Banc Bwyd, Apêl Anrhegion Nadolig y Cyngor Sir, Y Ganolfan Trais Domestig ac unrhyw gyfle arall ddaw. Dywedodd fod holl drigolion Tref Caerfyrddin yn gymydog i ni ac fel cymydog da, mae'n bwysig ein bod yn helpu ein gilydd. Yn briodol iawn, adroddwyd Dameg y Samariad Caredig ar y sgrîn.

Noa ac Elliw oedd yn gyfrifol am gyflwyno'r weddi gan ddiolch am y dref, ei phobl a'r rhai sydd yn ein gwasanaethu. Diolchodd Noa am ei threftadaeth a'i diwylliant gan ofyn i Dduw gynorthwyo pawb sy'n ein cynrychioli i fod 'yn gydwybodol fel dinasyddion da a chyfranu tuag at les y dref gyfan' gan ofyn i Dduw oleuo'r ffordd ymlaen iddynt. Cofiodd Elliw am ardaloedd eraill yn ein byd, yn arbennig mannau lle mae rhyfel ar hyn o bryd gan obeithio y bydd cariad yn trechu yn y pen draw.

Yna, daeth plant yr Ysgol Sul ymlaen gan gyflwyno ambell gân swynol i'r gynulleidfa i gyfeiliant band talentog y Priordy. Cyflwynodd Nel rodd bach i ddymuno'n dda i'r Maer newydd cyn i'n gweinidog Beti-Wyn gyflwyno Emyn:274 – Ceisiwch yn gyntaf a'r gynulleidfa yn ei chanu fel tôn gron.

Cafwyd gair gan Beti-Wyn i'r plant gan holi cwestiynau am y ffilm a rannwyd am 'Y Samariad Trugarog' ac fe gafodd y plant dasg fer a hwyliog i'w wneud i weld sut 'Samariad Trugarog' fydden nhw petai un wedi ei glwyfo!

Nododd bod ganddi rodd i'r plant oedd yn cynnwys bisged 'Jammie Dodger' gyda calon yn y canol i atgoffa'r plant i wneud ei gorau glas i garu pawb yn y dre.Yn addas iawn, Emyn: 832 – Dysg imi garu Cymru oedd yr emyn olaf.

DYMUNIADAU gorau i'r Maer wrth iddi ddechrau ar flwyddyn brysur yn gwasanaethu'r dref ac yn gwneud ei gorau i ddiwallu anghenion y dref.

COFIWCH DROI AT BODLEDIAD YR OFALAETH I WRANDO AR SGWRS RHWNG Y MAER NEWYDD A SULWYN

SUL Y MAER YN Y PRIODY

DIWRNOD FFOADURIAID Y BYD

MAE Diwrnod Ffoaduriaid y Byd y Cenhedloedd Unedig yn cael ei ddathlu ar 20 Mehefin bob blwyddyn. Mae'r digwyddiad hwn yn anrhydeddu dewrder, cryfder a phenderfyniad menywod, dynion a phlant sy'n cael eu gorfodi i ffoi o'u mamwlad o dan fygythiad erledigaeth, gwrthdaro a thrais.

Mae sefydliadau fel Amnest Rhyngwladol a'r Pwyllgor Achub Rhyngwladol (IRC) yn aml yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol am y diwrnod.

Mae rhai cymunedau yn neilltuo wythnos gyfan sy'n cynnwys Diwrnod Ffoaduriaid y Byd i annog pobl i feddwl am fywydau ffoaduriaid a'r hawl ddynol i le diogel y gall rhywun ei ystyried yn gartref.

Ers ei sefydlu, mae Diwrnod Ffoaduriaid y Byd wedi datblygu'n llwyfan pwysig ar gyfer hawliau a lles ffoaduriaid ac i hyrwyddo cydweithrediad rhyngwladol wrth fynd i'r afael â'r heriau y maent yn eu hwynebu.

Ar hyn o bryd mae mwy na 14 miliwn o ffoaduriaid ledled y byd.

Thema Diwrnod Ffoaduriaid y Byd 2025 yw '*Mae pob gweithred yn cyfrif*'. Gall pawb wneud gwahaniaeth, meddai corff y byd, ac mae'n gyfrifoldeb ar bob un ohonom i wneud yn siŵr nad oes unrhyw un yn cael ei adael ar ôl.

Mae rhestr eang o ddyfyniadau ysbrydoledig ar gyfer Diwrnod Ffoaduriaid y Byd y gallwn eu rhannu gyda theulu a ffrindiau. Dyfynnir un ohonynt ar dudalen blaen ein Papur. Awdur y geiriau yw Warsan Shire.

Awdur, bardd, golygydd ac athro yw Warsan Shire a anwyd i rieni Somali yn Cenia 1 Awst 1988. Dyfarnwyd iddi Wobr Barddoniaeth Affricanaidd gyntaf Prifysgol Brunel yn 2013. Mae'n tynnu ar brofiadau personol o'i bywyd ei hun a bywydau pobl y mae'n agos atynt yn ei gwaith. Mae'n ysgrifennu am bobl nad yw eu lleisiau

yn cael eu clywed yn gyffredinol, fel mewnfudwyr a ffoaduriaid yn ogystal â phobl ymylol eraill, ac ar eu cyfer.

DAW'R dyfyniad (*No one leaves home unless / home is the mouth of a shark* – yn y gwreiddiol) o'i cherdd *Home* ble mae'n darlunio profiadau byw ffoaduriaid y tu mewn a'r tu allan i'w gwledydd. Mae'r dyfyniad grymus hwn yn adlewyrchu'r amgylchiadau anobeithiol sy'n gorfodi unigolion i ffoi o'u cartrefi, gan bwysleisio difrifoldeb yr argyfwng ffoaduriaid

Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?
Trowch at: cyfundeb.com

CWIS Y DIARHEBION CYMRAEG

Mae pob dihareb yn dechrau gyda'r llythyren 'G'

Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu beth yw'r gair coll!
Pob lwc!!

1	Gan y gwirion y ceir y ----
2	Gorau cof, cof ---
3	Gormod o bwdin a dag ---
4	Gwan ei gallon a ---
5	Gwell crefft na ---
6	Gwell hwyr na ---
7	Gwell nerth dwy wrach nag ---
8	Gwell pwyll nag ---
9	Gwell Rhagluniaeth na ---
10	Gŵr dieithr yw ---

Atebion ar Dudalen 35

CYFRES YR EGLWYSI ANGHYFFREDIN

Edrychwn yn bennaf ar yr adeiladau

EGLWYS GADEIRIOL MARINGÁ, PARANÁ, BRASIL



Eglwys fodern a'r dalaf yn Ne America a gwblhawyd yn 1972 ar uchder o 124 metr (407 troedfedd).

Nod dyluniad yr eglwys yw dod â phobl yn agosach at Dduw. Byddai cwympo o'r top yn sicr yn eich cyflymu ar eich ffordd i'r Hollalluog!

Rhwng waliau mewnol ac allanol yr eglwys gadeiriol mae 598 o risiau sy'n arwain at blatfform gwylio sy'n edrych i lawr dros y ddinas. Bydd y rhai sy'n dringo'r grisiau yn pasio mannau gorffwys pobl sydd wedi dewis cael eu claddu yn waliau'r eglwys gadeiriol.

Carreg gyntaf yr eglwys gadeiriol oedd darn o farmor a gymerwyd o Basilica Sant Paul yn Rhufain ar ôl cael ei fendithio gan y Pab Pius XII. O ddechreuadau traddodiadol o'r fath y codwyd yr eglwys ac ysbrydolwyd y pensaer, José Augusto Bellucci, i'w dylunio mewn siâp conigol gan loerenni Sputnik Rwsia.

LLONGYFARCHIADAU ELINOR!

Cyhoeddwyd mai Elinor Wyn Reynolds, un o ddiaconiaid y Priordy, fydd Ysgrifennydd Cyffredinol newydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg gan olynu'r Parchedig Dyfrig Rees yn y swydd.

Mae Elinor wedi bod yn gweithio yn Nhŷ John Penri ers rhai blynyddoedd gan ofalu am gyhoeddiadau'r Undeb.

Elinor yw'r lleygwr cyntaf ers can mlynedd i dderbyn y swydd hon. Hi yw'r ferch gyntaf i gael ei phenodi'n Ysgrifennydd Cyffredinol yn hanes yr Annibynwyr.

Bydd Elinor yn cael ei chyflwyno'n swyddogol yng Nghyfarfodydd Blynyddol yr Undeb sydd i'w cynnal yn Nant Gwrtheyrn rhwng y 25-27 o Fehefin eleni.

Pob bendith a llwyddiant i Elinor wrth y gwaith oddi wrth bob un ohonom yn yr Ofalaeth

Ifanc@Gofalaeth

Eisteddfod

Da iawn bawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr. Roedd yn dda eich gweld yno.

Tripiau Ysgol Sul

Fe fydd Ysgolion Sul Y Priordy a Cana ac Elim yn mynd ar eu tripiau Ysgol Sul cyn bo hir! Fe fydd plant Elim yn teithio i'r gorllewin ar ymweliad â Clerkenhill ar ddydd Sadwrn 8 Mehefin a phlant Y Priordy a Cana yn teithio i'r dwyrain ar ddydd Mercher 23 Mehefin, i Gaerdydd i weld Sioe Joseff yng Nghanolfan y Mileniwn. Ac rydw i'n cael dod i'r ddau le! Hwre!

Taith Gerdded

Dyna gyfle i ni i gyd ddod ynghyd i fwynhau ar ddiwedd y tymor. Taith gerdded arbennig yn addas i bawb. Manylion ar y poster!

Chwilotair Y Pentecost

I	E	I	T	H	O	E	D	D	E	C	H	Y	Z
A	F	P	E	N	T	E	C	O	S	T	A	E	I
S	G	S	N	V	N	R	I	Y	V	L	P	F	U
C	I	Z	W	I	E	H	N	S	K	D	K	B	T
F	S	A	R	N	F	U	J	B	M	R	B	N	A
C	S	K	R	X	Z	T	A	R	E	Y	W	M	F
J	D	K	G	A	B	H	S	Y	D	S	C	C	O
Z	D	A	R	P	D	R	G	D	D	U	J	T	D
H	Q	P	Y	Y	M	O	P	G	W	M	R	F	A
G	L	A	M	T	E	B	H	L	I	Q	A	S	U
B	U	E	U	W	R	T	P	A	A	Z	T	J	C
I	H	M	S	Y	U	F	A	N	E	H	V	W	A
L	G	W	Y	N	T	W	J	N	V	L	P	Q	L
V	D	U	W	H	P	A	Z	T	B	O	D	E	W

PENTECOST
GRYMUS
YSBRYDGLAN
RHUTHRO
IEITHOEDD
DRYSU
GWYNT
SIARAD
TAN
MEDDWI
TAFODAU
SWN
NEF

Gwasanaethau arbennig

Da iawn i blant Ysgol Sul Y Priordy am ganu mor wych yn Oedfa'r Maer. A da iawn hefyd i blant Ysgol Sul Elim am ganu mor wych ac ateb y cwestiynau i gyd yn y Gymanfa Bwnc. Gwaith da bawb! Mae lluniau o'r ddau wasanaeth mewn man arall yn y papur hwn. Chwiliwch amdanynt!

Hwyl am y tro
Beti-Wyn

DYMUNIADAU GORAU!

Pleser gan ein Gweinidog oedd galw i weld tri o aelodau'r Priordy ar achlysur eu pen-blwydd yn 90 oed ac i estyn dymuniadau gorau eu cyd-aelodau iddynt

HARRI EVANS

HENRY WILKINS



ALWYN JONES

Elinor Wyn Reynolds

Ar nos Fercher arferol: noson yng nghwmni Ysgol Farddol Caerfyrddin

Ar nos Lun glawog ym Mai yn festri'r Priordy, fel petai'n hud a lledrith, mi drodd hi'n 'nos Fercher arferol' arnom yn y Gymdeithas Ddiwylliadol, oherwydd dyna oedd teitl y noson ddifyr a gafwyd yng nghwmni'r Ysgol Farddol. Chi'n gweld, ar nosau Mercher mae Ysgol Farddol Caerfyrddin (sy'n llinell o gynghanedd gyda llaw) yn cwrdd. Daeth Geraint Roberts, Siw Jones, Meirion Jones ac Aled Evans ynghyd i rannu atgofion am y blynyddoedd ers cychwyn yr Ysgol Farddol yn 1992 gyda Tudur Dylan Jones yn arwain. Erbyn hyn, gallai Geraint ddim dychmygu Caerfyrddin heb yr Ysgol Farddol - sut le fyddai'r dre heb farddoniaeth?

Cychwynnodd yr Ysgol Farddol yn y Stag and Pheasant ym Mhontarsais, cyn symud i'r Queens yn y dre, yna Tanerdy. Bellach mae'r Ysgol Farddol yn cwrdd yng nghlwb y Quins ger parc y dref. Y mae'r Ysgol Farddol wedi cynhyrchu beirdd cenedlaethol o bwys, nid y lleiaf ohonynt wrth gwrs yw Mererid Hopwood, sef y fenyw gyntaf i ennill y gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych yn 2001. Yn wir, nid dim ond cyflawni hanes wnaeth Mererid gydag ennill, ond agor cil y drws i eraill ystyried yr hoffent hwythau hefyd fynd ati i ddysgu crefft cynganeddu, fel y nododd Siw Jones a Meirion Jones eu dau.

O'r cychwyn cyntaf, nid dim ond dysgu cynganeddu oedd myfyrwyr yr Ysgol Farddol, ond mwynhau cwmnïaeth a hwyl yng nghwmni eraill. Ac nid yn unig nosweithiau hwyliog, chwerthin a thynnu coes sy'n digwydd ond hefyd caiff tripiau eu trefnu i ymweld â mannau o ddiddordeb llenyddol, hanesyddol a diwylliannol i fannau fel Yr Ysgwrn cartref Hedd Wyn; Pen Llŷn, Aberdaron ac Enlli; Y Trallwng a Phengwern ar drywydd Heledd; i Lundain i chwilio am Iolo a phobl ddifyr eraill; a hyd yn oed i Ypres, yn Ffrainc i gofio Hedd Wyn. Nid dim ond y beirdd fyddai'n mynd ar y teithiau bws hynny, croesawyd teuluoedd hefyd yn bartneriaid ac yn blantos a byddai'r hwyl barddol yn parhau ar ddwyolwyn. Cawsai tri thîm eu trefnu a thasgau eu rhannu, yna byddai'r cynnyrch yn cael ei glywed mewn talwrn min nos. Yn ogystal â rheolau cynghanedd roedd yna reolau eraill ar y teithiau hefyd sef y byddai pwyntiau'n cael eu tynnu am gintachu

(roedd bysus Ffoshelig yn CFZ, sef Cintachu Free Zone ar y teithiau hyn) ac roedd modd ennill pwyntiau drwy ddweud rhywbeth ffraeth neu ddoniol.

Mae'n amlwg bod y pedwar bardd oedd yn bresennol yn y festri wedi cael modd i fyw o fod yn rhan o'r Ysgol Farddol, wedi dod o hyd i gwmnïaeth hyfryd ac wedi dysgu sut i gynganeddu yn y fargen, gan gymharu hynny i ddysgu iaith newydd. Yn y cydymdrechu y mae bardd yn mireinio'i grefft a dod yn artist sy'n defnyddio'i ymennydd ei ddwylo a'i galon. Nid dim ond gwersi sy'n digwydd yn yr ysgol hon mae'n amlwg.

Soniwyd am yr eisteddfodau pwysig a ddigwyddodd yng Nghaerfyrddin; yr un yn 1450 a barodd am dri mis, pan enillodd Dafydd ab Edmwnd y gadair arian; a'r eisteddfod yn 1819, sef eisteddfod Iolo pan gyplyswyd yr orsedd â'r cystadlu am y tro cyntaf, Gwallter Mechain enillodd y fedal arian y flwyddyn honno. Ond stori arall ddifyr yw'r stori honno, af i ddim ar ôl y sgwarnog hwnnw.

Yn ddi-os, mae Ysgol Farddol Caerfyrddin wedi cyfrannu'n helaeth i fywyd y genedl yn genedlaethol hefyd, gyda sawl tîm Talwrn wedi cychwyn yno. Wrth gwrs mae nifer o gyn-fyfyrwyr yr ysgol yn dal uchel-swyddi yn yr Eisteddfod Genedlaethol heddiw o'r Archdderwydd i'r Arwyddfardd. Y cwestiwn sy'n codi o'r noson hynod hwyliog a gafwyd yn hel atgofion ac yn rhannu cerddi yw, sut beth fyddai Cymru heb Ysgol Farddol Caerfyrddin? Lle tipyn tlotach dybiwn i.



DIOLCH mawr i'r beirdd am fod mor hael gyda'u hamser, eu hawen a'u dawn a rhoi noson hyfryd o ddifyrrwch i bawb. Hir oes i'r beirdd a hir oes i Ysgol Farddol Caerfyrddin!

CYFARFODYDD BLYNYDDOL UNDEB YR ANNIBYNNWYR CYMRAEG

25-27 Mehefin 2025
Nant Gwrtheyrn

YR YSGOL FARDDOL YN Y GYMDEITHAS



Alun Charles …

CARIAD DUW YW'R GOBAITH

Ys gwn i a oes gennych chi, fel fi, ryw lwmpyn bach caled ar un o'ch bysedd? Mae'n gwbl ddiniwed, medden nhw. Mae'n debyg mai beth sydd yma yw celloedd croen marw cronedig sy'n ffurfio o ganlyniad i ffrithiant dro ar ôl tro yn erbyn eich bys. Yr hyn sy'n ei achosi fel arfer yw llawer o ddefnydd o feiros, pensiliau, neu offer ysgrifennu eraill. Enwau arno yw twmpyn neu hwrlun neu galeden ysgrifennwr.

Un ffordd o ddweud slawer dydd a oedd rhywun yn llaw dde neu lawchwith oedd drwy edrych ar ei fysedd a gweld y lwmpyn bach yna ar y bys y byddai'r beirio neu'r pensil yn pwyso arno wrth i'r person ysgrifennu!

Mae'r lwmpyn bach hwn yn arwydd gweladwy a chlir o'n harfer ni o ysgrifennu.

Tybed beth yw'r arwydd sy'n dangos ein bod yn Gristnogion?

Dros y canrifoedd, mae pobl wedi defnyddio llawer o wahanol arwyddion neu symbolau i ddangos hyn. Roedd y pysgodyn yn arwydd cynnar o'r ffydd Gristnogol, ac mae'n parhau i gael ei ddefnyddio hyd heddiw. Gallwch ei weld wedi'i gludo ar gefn ambell gar, er enghraifft. Symbolau erall yw colomen wen neu dafodau tân. Y symbol sy'n sefyll uwchben pob symbol arall yw'r Groes. A heddiw, mae rhai Cristnogion yn gwisgo'r Groes ar gadwyn neu glustdlysau ymhlith pethau eraill.



Ond mae arwydd rhagorach na hynny hyd yn oed sy'n dangos ein bod yn Gristnogion. Beth yw hwnnw, meddech chi?

Wel, ar ddiwedd ei weinidogaeth, gwnaeth Iesu'n glir beth oedd i fod yn arwydd gwahaniaethol i'r Cristion nes iddo ddychwelyd. Meddai yn Efengyl Ioan (13: 34-35):

'Dw i'n rhoi gorchymyn newydd i chi: Carwch eich gilydd. Rhaid i chi garu'ch gilydd yn union fel dw i wedi'ch caru chi. Dyma sut bydd pawb yn gwybod eich bod chi'n ddilynwyr i mi, am eich bod chi'n caru'ch gilydd.'

Dyma arwydd go iawn i ddangos ein bod yn Gristnogion. Trwy garu ein gilydd fel hyn, mae Iesu'n esbonio y bydd pawb yn adnabod Ei ddisgyblion. Mae'r cariad hwn yn gwahaniaethu dilynwyr Iesu oddi wrth y byd ac yn tystio i rym trawsnewidiol yr Efengyl.

Mae yna newid yn ein cyfrwng ysgrifennu'r dyddiau hyn. Rydyn ni'n gwneud mwy o ddefnydd cyfrifiadurol wrth ysgrifennu ac mae hynny'n gwneud synnwyr ar lawer cyfrif. Wedi'r cyfan, mae'r cyfrifiadur yn gadael i ni deipio testun yn hawdd, ei symud o gwmpas, a'i olygu. O ganlyniad i'r datblygiadau hyn, mae'r lwmpyn bach yna sydd ar fy mys i yn mynd yn llai ac yn llai ac, o bosib, yn graddol ddiflannu. Beth amdanoch chi?

Ac wrth i ninnau yn ein cyfnod cythryblus ni newid ein ffordd o fyw ac esgeuluso dilyn esiampl Iesu, mae perygl hefyd i'r nodweddion arbennig hynny sy'n deillio o ffynhonnell cariad Duw grebachu - y tangnefedd a'r cymod y mae Duw yn Iesu yn awchu eu gweld rhwng cenhedloedd ein byd. Y nodweddion hynny na allwn eu creu ohonon ni ein hunain ond y gallwn eu meithrin a'u datblygu drwy gariad Duw:

Gobaith plant pob oes,
gobaith dynol-ryw,
gobaith daer a nef
ydyw cariad Duw.

YSGOL SUL Y PRIORDY'N CYNNAL GWASANAETH YNG NGHARTREF PRESWYL ERW HIR

SUL SBESIAL 2025

NEUADD BRONWYDD SA33 6BD

DYDD SUL 13 GORFFENNAF 2.00

SIARADWR GWADD: **ALED HUW**

Yn un o 'blant y Priordy' mae Aled newydd ymddeol ar ôl bron i 35 mlynedd gyda'r BBC.

Ysgol Sul Capel Y Graig
Band y Priordy
Athrawon a rhieni Hermon yn gofalu am weithgarwch y plant
Aelodau Peniel yn gofalu am y te

CROESO CYNNES I BAWB

CWRDD CHWARTER

CAPEL PANT-TEG
Ger
Felin-wen
SA32 7HE

Bore Dydd Iau

11 Medi 2025
am
10.30

Un Cyfarfod

Croeso cynnes i bawb

Amnest Rhyngwladol

Bore Coffi yn y Capel Wesle, Heol Sant Ioan Caerfyrddin

Bore Sadwrn 21 Mehefin 2025 – 10.30-12.00
Mynediad: £2

BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS

Y PRIORDY

Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da

COFIO DR CARADOG

MAE'N debyg mai Caradog Roberts oedd y mwyaf cynhyrchiol a llwyddiannus o gyfansoddwyr emyn-donau ei genhedlaeth, yn ôl Rhidian Griffiths yn *Y Cydymaith i Gerddoriaeth Cymru*. Cyfansoddodd a threfnu llawer o emyn-donau. Mae deunaw ohonynt yn *Caneuon Ffydd*. Ymysg y rhai mwyaf poblogaidd mae *Rachie* ac *In Memoriam*. Caiff y rhain ac eraill eu canu gan gorau a chynulleidfaoedd mewn cymanfaoedd a gwyliau a chyngherddau nid yn unig yng Nghymru ond hefyd ledled y byd. Cyfansoddodd Caradog Roberts lawer o ddarnau cerddorol poblogaidd eraill yn ogystal.

Ganed y gŵr talentog hwn yn Rhosllannerchrugog 30 Hydref 1878, yn fab i John a Margaret Roberts. Dangosai ddawn gerddorol ers ei blentyndod, gan ennill sawl gwobr mewn eisteddfodau. Bu'n ddisgybl-athro am gyfnod a chafodd ei brentisio i fod yn saer ond cerddoriaeth oedd yn dwyn ei fryd. Astudiodd y piano a'r organ, gan ddod yn organydd Eglwys Cynulleidfaol Mynydd Seion, Ponciau o 1894 hyd 1903. Yn y flwyddyn ganlynol cymerodd swydd organydd a chôr-feistr yn eglwys Annibynnol Bethlehem, Rhos, swydd y bu ynddi hyd ei farwolaeth. Enillodd raddau B.Mus. (1906) a D.Mus. (1911), y ddwy yn Rhydychen. Fe oedd y Cymro ieuengaf, a'r cyntaf o Ogledd Cymru i ennill doethuriaeth mewn cerddoriaeth. Rhwng 1914 a 1920, bu'n Gyfarwyddwr Cerdd ym Mhrifysgol Bangor. Roedd yn un o olygyddion *Y Caniedydd Cynulleidfaol Newydd* (1921), llyfr emynau'r Annibynwyr Cymraeg a *Caniedydd Newydd yr Ysgol Sul* (1930). Bu'n arweinydd cymdeithasau corawl y Rhos a Llandudno. Roedd galw mawr hefyd am ei wasanaeth fel arweinydd cymanfaoedd canu, organydd a beirniad eisteddfodol. Bu farw yn Wrecsam 3 Mawrth 1935, yn ŵr cymharol ifanc, a'i gladdu ym mynwent Y Rhos.

Aeth naw deg mlynedd yn union heibio felly ers i ni golli Caradog

Roberts. Ar 2 Mawrth 2025, cynhaliwyd Cymanfa Ganu dan nawdd Undeb Corawl Gogledd Cymru i'w goffâu yng Nghapel Bethlehem, Rhos. Yr arweinydd oedd Trystan Lewis. Aeth holl elw'r noson at berfformio oratorio Caradog Roberts, *Atgyfodiad Crist*. Cyfansoddodd y gwaith ar gyfer ei Ddoethuriaeth Cerddoriaeth yn Rhydychen, ac mae wedi bod ar silffoedd Llyfrgell Bodley, Rhydychen ers dros 114 o flynyddoedd. Cafodd Trystan Lewis gopi o'r gwaith ac mae'n cael ei drawsgrifio ar gyfer cerddorfa a chôr. Bydd perfformiad cyntaf y gwaith yng nghapel Bethlehem, Rhos ar 5 Gorffennaf 2025 ac ail berfformiad yng Ngŵyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy ar 20 Medi 2025. Bydd Trystan Lewis hefyd yn darlithio ar fywyd a gwaith Caradog Roberts yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Wrecsam ym mis Awst 2025.

Stephen Morris yw unig ŵyr Caradog Roberts. Mae'n byw yn Wrecsam gyda'i briod Marjorie, ac yn gyn athro ieithoedd modern yn Ysgol Uwchradd Maelor yn Llannerch Bana (Penley). Buom yn ddigon ffodus i gael sgwrs ag e. Dyma i chi ddetholiad ohoni:

EP: Pa atgofion sy gyda chi o'ch taid?
SM: *Yn anffodus, does gen i ddim atgofion personol, ond roedd fy mam yn aml yn siarad amdano. Roedd yn ddyn caredig iawn, cariadus iawn, gyda synnwyr digrifwch mawr ac roedd yn caru plant a chathod! Gallai hefyd fod yn ddiamynedd iawn ac yn flin os na allai ddod o hyd i rywbeth yr oedd wedi'i gamleoli, ond byddai bob amser yn ymddiheuro ar ôl dod o hyd iddo!*

EP: Fe gyrhaeddodd yr uchelfannau cerddorol ar ôl bwrw prentisiaeth yn ifanc fel saer coed! Tipyn o gamp!
SM: *Do, fe wnaeth ac mi roedd yn gamp. Un diwrnod, yn ystod ei brentisiaeth, roedd yn gweithio yn eglwys Johnstown ac yn ystod egwyl te, doedd e ddim yn gallu gwrthsefyll y demtasiwn i ganu'r organ. Yn ddiarwybod iddo, roedd organydd Eglwys Gadeiriol Bangor, Dr Roland Rogers, yn y festri. Roedd wedi synnu at ansawdd chwarae fy nhaid nes iddo fynd yn uniongyrchol at fy hen daid a nain i esbonio bod yn rhaid meithrin dawn fel hon a dyna ddechrau bywyd hollol newydd.*

EP: Arhosodd yn driw i'w filltir sgwâr, on'd do?
SM: *Do, roedd wrth ei fodd yn y Rhos - yn wir, pryd bynnag y bo modd, roedd llawer o'i astudio yn cael ei wneud yn nhawelwch mynydd Rhos - ac roedd wrth ei fodd â Chymru a'r Gymraeg. Yn ôl cerddor enwog*

lleol, Brian Hughes, gallai fod wedi ennill enwogrwydd ledled y byd, pe bai wedi dewis gadael Cymru. Treuliodd wyliau yn Ostend a'i fis mêl ym Mharis ym mis Awst 1912 - priododd Miss Laura Pritchard hefyd o'r Rhos. Rhoddwyd caniatâd iddo ganu'r organ fawr yn Notre Dame, ond Rhos oedd ei gartref bob amser

EM: Mae enwau diddorol ar ei emyn-donau. Oes arwyddocâd arbennig iddynt?
SM: *Oes,yn wir. Mae rhai yn aelodau o'r teulu: Stella, Marion, Lenora, Gwendoline. Mae Newark yn cyfeirio at y dref yn New Jersey UDA lle roedd gan ewythr fy nain, y tenor operatig James Sauvage, ysgol gerddoriaeth. Cyfansoddwyd Louvain ar ôl cwrdd â grŵp o ffoaduriaid y Rhyfel Byd Cyntaf o Wlad Belg a oedd yn byw yn festri Capel Bethlehem, Rhos. Roedd eu sefyllfa yn ei gyffroi i'r fath raddau pan fyddai'n eu gweld wrth iddo fynd i ganu'r organ fel y cysegrodd y dôn hon iddynt a'i henwi ar ôl eu dinas a oedd wedi cael ei hysbeilio mor greulon.*

EP: Beth yw'ch hoff emyn-dôn chi?
SM: *Mae'n rhaid dewis Stella, a gyfansoddwyd ar gyfer fy mam, ei unig blentyn. Mae'n dôn ysgafn a thyner iawn a pherffaith iddi hi a'i phersonoliaeth. Mae hi mor wahanol i gerddoriaeth gyffrous Rachie ac In Memoriam*, *sydd bob amser yn gysylltiedig â fy nhaid*.

EP: Rydych chi a'r teulu'n falch iawn yn wir o'r cyswllt rhyngoch a Caradog Roberts.
SM: *Yn wir. Roedd fy mam a fy nain yn gerddorol iawn ac yn hynod falch ohono, fel yr wyf i, ond er mawr ofid a chywilydd i mi – Caradog yw fy enw canol - dw i ddim wedi etifeddu eu doniau cerddorol. Athro Ffrangeg a thipyn o chwaraewr rygbi a chriced o Abersychan, ger Pont-y-pŵl oedd fy nhad. Mae'r gerddoriaeth hefyd wedi mynd heibio ein mab, Simon, ond mae ein hwyres, Sophie, yn dangos diddordeb brwd. Rydym yn gobeithio y bydd hithau hefyd bob amser yn falch o'i*

hachau. Diolch yn fawr am roi'r cyfle i mi fod yn rhan o'ch teyrnged i fy nhaid.

A diolch yn fawr iawn i chithau am y sgwrs, Stephen, ac mae'n siŵr y byddwn yn clywed enw Caradog Roberts a darnau o'i waith ar fwy nag un achlysur yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam yn Is-y-coed yr haf hwn!

Llun (Tair Cenhedlaeth): Stephen, Simon (y mab), Marjorie (priod Stephen) a Sophie (yr wyres)

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Betsan James, Marjorie Morris ac Athrawon yr Ysgol Sul am y lluniau'r mis hwn.

CYFLWYNO SIEC I AELWYD FFYNNON-DDRAIN

sef rhan o elw'r gyngerdd a gynhaliwyd yn Heol Awst yn ddiweddar

RHWYDWAITH

***EIN* cofion cynnes at bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Cofion annwyl atoch i gyd.**

Gwelwyd Jeff ac Eirlys Thomas (HA) ar Heno ar S4C ym More Coffi MS a gynhaliwyd yn Nhafarn Sinc yn ystod Wythnos Codi Ymwybyddiaeth o MS. Cyflwynwyd yr eitem gan Daf Wyn.

Bu Rhaglen Ffion Dafis ar Radio Cymru yn trafod rhestr fer Llyfr y Flwyddyn 2025. A'r bardd a'r dramodydd Menna Elfyn (P) gafodd y dasg o gyhoeddi rhestr fer barddoniaeth y gystadleuaeth a nodi'r rheswm am y dewis.

Mae Aur y Noson Lawen, gydag Ifan Jones Evans, yn edrych yn ôl ar un o raglenni eiconig a bythol wyrdd S4C. Y cynhwysion hanfodol sydd eu hangen i greu Noson Lawen ddelfrydol oedd dan ystyriaeth ym Mhennod 1. Un o'r cynhwysion hynny yw'r cyflwynwyr ac ymhlith y rhain roedd yr 'eicon ffasiwn', yng ngeiriau Ifan, sef Peter Hughes Griffiths (P). Ym Mhennod 2 trysorau bywyd cefn gwlad oedd dan sylw a gwelwyd Heather Williams (P) yn un o'r cynulleidfaoedd yn mwynhau!

Brian Jones (E), sylfaenydd busnes bwyd ac arlwyo llwyddiannus Castell Howell oedd testun y rhaglen Cefn Gwlad ar S4C yn ddiweddar a chafwyd orig ddifyr iawn yn dilyn ei hanes.

Bu Gethin Hopley (HA) yn trafod y cyflwr 'methiant y galon' gyda Delme Thomas ar Pnawn Da ar S4C. A bu Tudur Dylan Jones (P) ar Bore Cothi ar S4C yn sôn am rai o'i atgofion cynnar.

Bu Dechrau Canu Dechrau Canmol ar ymweliad â chefn gwlad Sir Gaernarfon i weld sut mae Sir Nawdd y Sioe Frenhinol eleni yn paratoi at yr wythnos fawr. Daeth y canu o Gapel y Traeth Cricieth dan arweiniad Pat Jones (P).

Huw Fyw, yw drama lwyfan gyntaf y digrifwr Tudur Owen a fu ar daith ledled Cymru'n ddiweddar gyda Theatr Genedlaethol Cymru.

Bu Elinor Wyn Reynolds (P) yn adolygu'r ddrama ar Raglen Ffion Dafis ar Radio Cymru ac mae'n amlwg iddi gael ei phlesio'n fawr!

Llongyfarchiadau mawr i Sion Beynon (HA) a Mari Llywelyn a briodwyd ar 3 Mai yng Nghapel Gellimanwydd, Rhydaman. Ein dymuniadau gorau iddynt.

A phob dymuniad da hefyd i Mared Ifan ar achlysur ei phriodas â Rhys Evans ar 28 Mehefin 2025 am 11 y bore ac i Ffion Parsons ar achlysur ei phriodas â Joseph Vickeridge ar 5 Gorffennaf 2025 am 11 y bore. Bydd y naill briodas a'r llall yn y Priordy.

Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Gorffennaf / Awst i'n Gweinidog neu Alun Charles

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â nifer o deuluoedd sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar:

Ivor Evans ac Ann Griffiths (P) ar golli cefnder, Brian Jacob, Llanelli

Gwennie Thomas (E) ar farwolaeth ei brawd yng nghyfraith, Sammy Thomas Talog

Non Davies (P) ar golli ei chwaer Jean Revell, Bournemouth

Daeth y newyddion hefyd am golli Menna Lewis (HA). Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth. Bydd teyrnged iddi yn ein rhifyn nesaf.

Cofiwn amdanoch i gyd yn eich galar a'ch hiraeth

CWIS Y DIARHEBION - ATEBION			
1	gwir	6	hwyrtach
2	llyfr	7	un
3	gi	8	aur
4	gyll	9	brenhioniaeth
5	golud	10	yfory

DYLETSWYDDAU

ROTA YMWELWYR
ELIM, HEOL AWST A'R PRIORDY

MEHEFIN

E	Aelodau	HA	Aelodau	P	Gwynfor a Janet Davies Adrian a Gloria Evans Dennis a Rhian Jones

HEOL AWST
DYLETSWYDDAU'R SUL

Mehefin	1		Gorffennaf	6	
	8	Hywel a Janet Evans		13	
	15			20	Phil Hopley Helen Jones
	22			27	
	29	Hywel a Janet Evans			

CAPEL ELIM

BLODAU

Mehefin	1	Mirain Walters	Gorffennaf	6	Edward Davies
	15	Amy Evans		13	Alison Evans

PARATOI'R BWRDD CYMUN

Mehefin	1	Bore	Ann Walters
Gorffennaf	6	Bore	Anona Defis

PRIORDY

GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

Mehefin		Gorffennaf	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Gareth Gravell		Alison Parsons	

BLODAU

Mehefin	1		Gorffennaf	6	Olive Lloyd
	8	Margaret Lloyd Evans		13	Sul y Cyfundeb
	15			20	Janet Davies
	22	Pererindod		27	
	29	Heol Awst (Undebol)			

PARATOI'R BWRDD CYMUN

Mehefin	1	Bore	Betsan James a Rachel Davies
Gorffennaf	6	Bore	Alwen Owen a Fiona Elias

DARLLENWYR

Mehefin	1	Delyth Gwawr Davies	Gorffennaf	6	Angharad Wyn
	8	Alison Parsons		13	Sul y Cyfundeb
Sul y Tadau	15	Y Tadau		20	I'w gadarnhau
	22	Pererindod		27	Eirlys Davies
	29	Heol Awst (Undebol)			

CYHOEDDWYR

Mehefin	Jayne Woods	Gorffennaf	Adrian Evans

CINIO DYDD SUL YR OFALAETH

NEWID DYDDIAD

Byddwch mor garedig â nodi mai ar Ddydd Sul, 21 Medi 2025 y cynhelir Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth

OEDFA HAF CARTREF PRESWYL PLAS Y DDERWEN

Prynhawn Dydd Gwener 4 Gorffennaf 2025 – 2.30

Croeso cynnes i bawb

SULIADUR YR OFALAETH

MEHEFIN / GORFFENNAF 2025

	10.00	11.30	3.00	Amseroedd wedi nodi
Mehefin 1	Priordy© Gweindiog	Elim (+HA) © Gweinidog		Rihyrsal Dechrau Canu Dechrau Canmol am 6.00
Mehefin 8 Pentecost	Priordy Gweinidog			Dechrau Canu Dechrau Canmol 5.30 (drysau yn agor)
Mehefin 15 Sul y Tadau	Priordy – *OD* Gweinidog	Elim (+HA) Gweinidog		
Mehefin 22	Pererindod yr Ofalaeth			
Mehefin 29	Heol Awst Oedfa Capeli Cymraeg y dref Gweinidog			Gwyl Hirddydd Haf 4.30 Parc y Dref Gweinidog
Gorffennaf 6	Priordy© Gweinidog	Elim (+HA)© Gweinidog		
Gorffenanf 13				Rihyrsal Cymanfa Ganu 5.00
Gorffennaf 20	Priordy Gweinidog		Heol Awst (+E)© Gweinidog	
Gorffennaf 27	Priordy Gweinidog	Elim (+HA) Gweinidog		

AMSERLEN YR YSGOL SUL

Mehefin/Gorffennaf 2025		
	Elim **1 Mehefin – Oedfa Deulu** **11 Gorffennaf - Y Sul Sbesial** **Y Priordy** **8 Mehefin – Ysgol Sul** **15 Mehefin Oedfa Deulu** **22 Mehefin – Dim Ysgol Sul** **29 Mehefin – Ysgol Sul** **5 Gorffennaf – Parti Diwedd Tymor** **11 Gorffenaf – Y Sul Sbesial**	

CYFARFODYDD SWYDDOGION YR OFALAETH

CYFARFODYDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR EIN GOFALAETH			
ELIM	**Prynhawn Gwener 13 Mehefin**	**1.30**	**Capel Elim**
HEOL AWST	**Prynhawn Mercher 11 Mehefin**	**2.00**	**Festri Heol Awst**
Y PRIORDY	**Nos Lun 9 Mehefin**	**7.30**	**Festri'r Priory**



Bydd croeso i bawb sy'n dymuno dod i'r Rihyrsal yn Festri Heol Awst ar Nos Sul, 1 Mehefin 2025 am 6 o'r gloch

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg
Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin

Oedfa'r Chwiorydd 2025

Nos Fercher, 18 Mehefin
am 7 o'r gloch
yng Nghapel Cana, Bancyfelin
Paned i ddilyn

Casgliad ar y noson tuag at
The Teenage Cancer Trust